Gwobr Ansawdd Genedlaethol
Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru

Welsh Network of Healthy School Schemes
National Quality Award

# Adroddiad Gwobr Ansawdd Genedlaethol

ar yr ymweliad â

Ysgol Gwenffrwd, Treffynnon

Dyddiad:

Mai 15fed ac16eg, 2018

## Cyflwyniad

Llongyfarchiadau ar eich llwyddiant i dderbyn y Wobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru. Yr ydym yn falch iawn i gadarnhau bod Ysgol Gwenffrwd yn cyfarfod â'r holl feini prawf ar gyfer y Wobr Ansawdd Genedlaethol. Mae'r meini prawf hyn wedi eu gosod allan yn erbyn 7 testun iechyd.

Mae ysgolion sydd yn llwyddo i dderbyn y Wobr Ansawdd Genedlaethol yn gweithredu mentrau sydd yn ymwneud â lles i'r safon uchaf. Yn yr adroddiad hwn yr ydym yn nodi cryfderau nodedig eich ysgol wrth i chi fynd ati i hyrwyddo lles pawb sydd yn ymwneud â'r ysgol. Mae'r adroddiad hefyd yn adnabod meysydd sydd angen ystyriaeth arnoch er mwyn datblygu ymhellach. Gobeithiwn bod yr adroddiad yn rhoi hwb i chi ac yn cynnig arweiniad defnyddiol fydd yn galluogi disgyblion a staff Ysgol Gwenffrwd i barhau ac i ddatblygu rhai o'r mentrau rhagorol mae'r ysgol eisoes yn ei gweithredu fel eu bod hyd yn oed yn cael eu sefydlu ymhellach ym mywyd yr ysgol.

1. Bwyd a ffitrwydd (maeth a gweithgareddau corfforol)
2. Iechyd a lles Meddyliol ac Emosiynol gan gynnwys lles y staff
3. Datblygu personol a chydberthynas gan gynnwys addysg rhyw a pherthnasoedd
4. Defnyddio a chamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol, ysmygu a chyffuriau (cyfreithiol, anghyfreithiol a phresgripsiwn)
5. Amgylchedd gan gynnwys eco-fentrau a gwelliannau i'r ysgol a'r amgylchedd ehangach
6. Diogelwch gan gynnwys agweddau amrywiol fel amddiffyn plant, diogelwch yr haul, diogelwch y rhyngrwyd a chymorth cyntaf

Hylendid gan gynnwys ar draws yr ysgol a thu hwnt

Am ragor o wybodaeth ar feini prawf GAG, ymwelwch â http://gov.wales/topics/health/improvement/schools/?skip=1&lang=cy

Mae'r meini prawf yn cael eu cefnogi gan nifer o egwyddorion sylfaenol sef;

- Pwysigrwydd cyfranogiad y disgyblion yng nghraidd bywyd ysgol sydd yn effeithio ar les plant a phobl ifanc e.e. dysgu ac addysgu, amgylchedd, gofal bugeiliol
- Pwysigrwydd yr ymrwymiad a'r ddealltwriaeth sydd gan holl gymuned yr ysgol
- Bod agweddau iach tuag at iechyd yn bodoli
- Cyfiawnder Ecwiti
- Y cyswllt â rhaglenni a pholisïau cenedlaethol a lleol

**Eurwen Hulmston**

**Crynodeb yr ymweliad**

Sylfaen yr holl waith sy'n digwydd yn Ysgol Gwenffrwd yw iechyd a lles y disgyblion. Mae hyn yn cael ei amlygu'n glir trwy'r holl agweddau o fywyd ysgol. Mae hunan arfarnu'r ysgol yn dangos yn glir bod iechyd a lles wrth wraidd holl gynllunio'r ysgol. Mae'r gynhaliaeth i ddisgyblion bregus yn arbennig o dda, gyda staff wedi eu hyfforddi i gefnogi'r disgyblion trwy gynlluniau fel "Hapus i Fod yn Fi", "Cylch Siarad" a hyfforddiant wedi ei gwblhau i gyflwyno'r cynllun "ELSA" (Emotional Literacy Support Assistant). Mae cyfranogiad y disgyblion yn hynod o gryf a llwyddiannus gyda grwpiau o ddisgyblion yn gyfrifol am gymaint o agweddau o fywyd ysgol, yn aml yn hunangynhaliol, yn bendant yn cyfateb i ofynion y cynllun yma, a chynrychiolaeth o'r grwpiau hyn yn bwydo i mewn i Gabinet yr ysgol, sy'n gyfrifol am arwain llais y disgybl ar draws yr ysgol a chydgordio'r holl weithgareddau.

Er mai'r pennaeth sy'n arwain y gwaith Ysgol Iach o fewn yr ysgol, sydd wrth gwrs yn sicrhau statws i'r cynllun o fewn yr ysgol, mae tîm arbennig o staff yn cyd weithio ar y saith gwahanol agwedd, sydd wedyn yn sicrhau bod y cynllun yn un traws gwricwlaidd, yn ysgol gyfan ac yn derbyn ymrwymiad pendant gan holl staff yr ysgol. Braf hefyd, oedd gweld ymrwymiad pendant y Bwrdd Llywodraethol i waith y cynllun, gyda'r llywodraethwyr yn dangos ymwybyddiaeth glir o'r gwaith a'i bwysigrwydd. Mae polisïau'r ysgol i gyd yn glir ac er fod templed y sir wedi ei ddefnyddio i amryw ohonynt, mae'r ysgol wedi addasu y rhain fel bod pob un yn hollol berthnasol i'r ysgol. Mewnbwn disgyblion hefyd i'w weld yn glir mewn llawer iawn o'r polisïau.

Mae cyfathrebu yn agwedd gref iawn yn yr ysgol. Oherwydd bod dalgylch yr ysgol yn eang mae rhai disgyblion yn teithio ar fws ysgol ac felly mae sicrhau bod rhieni yn cael gwybodaeth yn rheolaidd yn hynod o bwysig i'r ysgol. Mae'r safwe yn lliwgar a defnyddiol iawn. Hoffais yn fawr fod pob teulu yn cael siawns ar ddechrau pob thema i gael mewnbwn i'r gwaith trwy'r blogiau, sy'n cael eu defnyddio gan rieni a disgyblion i fwydo syniadau. Mae llythyrau hefyd yn mynd adref yn rheolaidd ac yn ystod ein sgwrs gyda'r rheini, roeddynt yn canmol yn fawr y dulliau a ddefnyddia'r ysgol i gadw cysylltiad agos gyda'r rhieni.

Mae'r cwricwlwm yn adlewyrchu'r gofynion mwyaf diweddar ac yn cynnwys agweddau pwysig o'r cynllun yma. Mae mewnbwn disgyblion i holl agweddau'r dysgu yn gryf a'r ysgol yn arfarnu a datblygu'r cwricwlwm yn dilyn trafodaethau gyda'r disgyblion a gyda'r is dimau o staff. Mae strwythur yr ysgol o rannu'r oedrannau i adrannau penodol gyda grwpiau o staff yn cyd weithio ym mhob darn e.e. adran dan bump, adran dan saith, yn sicrhau bod tîm o staff, athrawon a chymorthyddion yn gallu cydweithio ar yr agweddau dysgu i sicrhau'r gorau i'r disgyblion. Agwedd arall oedd yn cael ei amlygu yn glir oedd rôl bwysig y cymorthyddion ym mywyd yr ysgol a'r parch a roddir i'w gwaith da.

Mae adeilad yr ysgol yn fawr ac i ddweud y gwir, yn un anodd i ddisgyblion cynradd ond mae'r ysgol yn defnyddio'r gwagle yn ddoeth iawn. Mae cynnal a chadw adeilad o'r maint yma yn gostus iawn ond mae'r ysgol yn hynod o drwsiadus ac yn arbennig o daclus a glan. Mae tiroedd yr ysgol yn ddefnyddiol iawn ac yn hybu chwarae dychmygol ac amser chwarae prysur a'r ardd a'r potiau blodau yn llwyddiannus iawn.

O'r cyfarfod gyda'r rhieni, clywyd am gefnogaeth ac ymrwymiad yr ysgol i blant a'u teuluoedd ac mae'r ysgol yn chwarae rôl yn y gymuned leol ac yn hybu Cymreictod y dref a'r ardal. Roedd yn bleser mawr cael ymweld gyda'r ysgol a gweld yr holl waith da sy'n digwydd.

**Uchafbwyntiau'r ymweliad**

**Bwyd a Ffitrwydd**

Mae gan yr ysgol bolisïau cadarn sy'n dilyn canllawiau lleol a chenedlaethol ac mae'n amlwg o'r holl arfer da a welsom, fod y polisïau'n weithredol. Mewnbwn gan y disgyblion i rai o'r polisïau.

**Bwyd**

- Ffrwythau ar gael trwy'r ysgol ar amser byrbryd bore a dwr yn unig i'w yfed. Disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn derbyn eu llefrith yn ystod egwyl y prynhawn.
- Disgyblion CA 2 yn derbyn potel aml ddefnydd gan yr ysgol ac yn cael eu hybu i ail lenwi o'r fynnon oeri dŵr yn rheolaidd.
- Cydweithrediad arbennig y gogyddes gyda cymaint o agweddau o fywyd ysgol – sesiynau blasu i'r rhieni, diwrnodau cinio thema i gyd-fynd â gwaith thematig yr ysgol, trafodaethau gyda'r Grŵp Eco a llawer mwy.
- Gwaith da y Ffrindiau Ffreutur sy'n helpu nid yn unig gyda cinio ysgol ond gyda'r disgyblion ar becynnau bwyd ac sy'n helpu gyda glanweithdra hefyd.
- Rhieni yn nodi bod gwaith yr ysgol ar fwyta'n iach wedi treiddio'n ddwfn am fod y negeseuon yn dod adref a'r disgyblion yn atgoffa rheini o'r canllawiau.
- Clwb Coginio allgyrsiol ar adegau trwy'r flwyddyn.

**Ffitrwydd**

- Disgyblion Bl.6 yn rhedeg milltir y dydd a trefniant hyn yn rhan o gyfrifoldeb y Chwaraewyr Da.
- Yr holl ysgol yn ymuno mewn sesiwn ben bore o dan arweiniad disgyblion Bl.6 sy'n cynllunio'r dawnsfeydd. Hyn hefyd yn rhan o waith y Siarter Iaith.
- Amseroedd chwarae yn brysur iawn gyda llawer o offer diddorol ar gael a'r Chwaraewyr Da ar gael i helpu neu drefnu gweithgareddau a'r Mêts-Grêt yno i helpu a sicrhau bod pawb yn hapus. Y ddwy swydd yn derbyn cryn statws yn yr ysgol.
- Timau cystadleuol yr ysgol yn derbyn cryn lwyddiant ar draws ystod o chwaraeon a mabolgampau.
- Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon hefyd yn cefnogi yr agwedd yma ac wedi trefnu Bownsio Noddedig a taith gerdded noddedig.
- Clybiau allgyrsiol yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon amrywiol dros y flwyddyn ysgol.

**Iechyd a Lles Emosiynol**

- Yr agwedd yma i'w gweld yn glir ym mhob elfen o fywyd ysgol.
- Polisïau yn glir ac yn berthnasol i'r ysgol. Mewnbwn y disgyblion i lawer o'r polisïau.
- Y sesiynau ymlyniad y cawsom y fraint o'i gweld yn cefnogi disgyblion yn arbennig o dda - grwpiau "Hapus i fod yn Fi", "Cylch Siarad" ag ELSA i ddod.
- Gwaith Webster Stratton yn y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol.
- Defnyddir y cynllun PASS (Pupil Attitude to School and Self) yn flynyddol a gweithredir ar y canlyniadau.

- Cyfranogiad disgyblion a llais y disgybl yn eang a hynod o lwyddiannus. Y Cabinet yn cynnwys cynrychiolwyr disgyblion o'r grwpiau Llysgenhadon Iaith, Eco Bwyllgor, E-Cadéts, Dewiniaid Digidol, Chwaraewyr Da, Ffrindiau Ffreutur, Mêt Grêt a Chriw Heartstart. Y Cabinet yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn trefnu gweithgareddau ysgol gyfan. Roedd aeddfedrwydd a hunan hyder y grŵp yma yn rhagorol.
- Ymddygiad y disgyblion yn arbennig o dda. Mae rhannu a bod yn garedig yn rhan bwysig o ethos yr ysgol ac yn cael ei atgyfnerthu yn rheolaidd gan yr holl staff.
- Cynllun clod wedi ei strwythuro trwy'r ysgol , er bod gwahaniaethau yn sut mae'r dosbarthiadau yn ei gyflwyno ac yn boblogaidd gyda'r disgyblion. Amser Aur yn arbennig o boblogaidd.
- Gwaith Mentr a Busnes disgyblion Bl.5 a 6 yn dda iawn.
- Statws mawr yn cael ei roi i'r holl swyddi sydd gan y disgyblion gyda cheisiadau, cyfweliadau a.y.b. Oherwydd hyn, y disgyblion yn gweld yr holl swyddi fel rhai pwysig iawn ac yn ymroddgar iawn i'w dyletswyddau.
- Noson Iach i'r rhieni mis Hydref 2017 gyda lles y disgyblion, bwyta'n iach, blasu cinio ysgol, cyflwyniad gan yr NSPCC a chyflwyniad ar Addysg Rhyw a Pherthnasedd gan y cydlynydd sirol.
- Clybiau all gyrsiol yn amrywio ar draws y flwyddyn. Gwelwyd Clwb Tennis, Clwb Cymru Cŵl, Clwb Heartstart a Chlwb Garddio yn ystod yr ymweliad.
- Y disgyblion yn derbyn sesiynau Yoga yn rheolaidd.
- Ystafell staff hynod o gyfforddus ac ystafell ddistaw ac addas i waith CPA.

## Datblygu Personol a Pherthnasedd

- Polisïau yn gyfoes a thrwyadl, eto gyda mewnbwn disgyblion i'r polisi diogelu a'r polisi addysg rhyw a pherthnasedd.
- Gwaith yr E- Cadéts yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith diogelu.
- Staff cyfan wedi derbyn hyfforddiant ar e-ddiogelwch ac ar gyflwyno addysg rhyw a pherthnasedd.
- Defnyddir yr adnodd Tyfu i Fyny trwy'r ysgol gan ddewis rhannau o'r DVD SENSE gyda'r disgyblion hŷn.
- Y pamffled rheini o'r Pecyn Tyfu i Fyny wedi ei yrru allan i'r rhieni.
- Disgyblion Bl.5 a 6 yn arwyddo cytundeb cyn gwneud gwaith penodol ar addysg rhyw.
- Gwasanaeth ysgol gyfan gan yr NSPCC ar thema "Cofia Ddweud".
- Noson Iach i'r rheini yn cynnwys cyflwyniad ar yr agwedd yma.

## Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau

- Hyfforddiant ar agweddau o feddyginiaethau i'r holl staff a hefyd yr arweinydd pwnc wedi derbyn hyfforddiant cyfoes ar addysg cyffuriau.
- Cyn diwedd tymor yr haf bydd pob disgybl o Fl.1 i Fl.6 wedi ymweld gyda Phentre Peryglon.
- Defnyddir y Pecynnau "Allweddi" i gyflwyno gwaith i'r disgyblion. Gwelwyd esiamplau o waith da ar addysg alcohol ac addysg cyffuriau gan ddisgyblion Bl.5 a 6.
- Disgyblion Bl.5 a 6 wedi creu cyflwyniad Pwynt Pŵer ar atal ysmygu.

## Yr Amgylchedd

- Yr ysgol wedi derbyn y Wobr Platinwm gan y cynllun Ysgolion Eco.
- Eco Bwyllgor hynod effeithiol yr ysgol sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Un o'u llwyddiannau oedd sioe ffasiynau ysgol gyfan gyda'r disgyblion yn creu rhywbeth i'w wisgo o

ddeunyddiau wedi eu hailgylchu – hetiau i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen a gwisg lawn i ddisgyblion CA2. Daeth llawer o rieni i gefnogi'r digwyddiad.

- Targedau'r Eco Bwyllgor yn rhan o Gynllun Datblygu'r Ysgol.
- Yr Eco Bwyllgor yn cyd weithio gyda'r gegin ysgol cyn penderfynu beth i'w blannu yn yr ardd am fod y gogyddes yn defnyddio rhywfaint o'r cynnyrch yn y gegin ysgol.
- Clwb Garddio yn ystod y tymor tyfu.
- Pob dosbarth yn gyfrifol am eu bocs tyfu eu hunain. Twnnel poly yn galluogi tyfu mwy o gynnyrch. Rhieni yn cefnogi'r gwaith tyfu.
- Holl safle'r ysgol yn hollol glir o unrhyw sbwriel ac yn daclus iawn.
- Llawer iawn o ail gylchu, gyda'r Eco Bwyllgor yn gyfrifol am gasglu gwastraff ffrwythau yn ddyddiol.
- Disgyblion yn cael mewnbwn i'r dewis o wledydd i'w hastudio fel rhan o Addysg ar Gyfer datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd Eang.
- Cefnogaeth dda i waith Masnach Deg.

## Diogelwch

- Staff yr ysgol wedi derbyn ystod o hyfforddiant addas.
- Hyfforddiant Heartstart i ddisgyblion Bl.6. Y Criw Hearstart hefyd wedi arwain y gwaith o godi arwain i fedru cael Defibrillator yn agos i safle'r ysgol.
- Hyfforddiant Bikeability i ddisgyblion Bl.6 yn flynyddol. Gwaith diogelwch ar y ffordd o fewn yr ysgol i ddisgyblion eraill.
- Diogelwch ar y we yn gryf o fewn yr ysgol a'r E-cadéts wedi ennill y wobr aur am eu gwaith ar yr agwedd yma.
- Sustemau diogelwch yr ysgol yn gadarn – cloeau electroneg, giatiau wedi eu cloi ar rai amseroedd a.y.b. Cynllun "lock down" yn yr ysgol wedi cael ei ymarfer yn weddol ddiweddar.
- Cyntedd, diogel a chyfforddus gweddol newydd yn yr ysgol, ble y gall ymwelwyr eistedd wrth aros i gael mynediad.
- Bydd pob disgybl o Bl.1 i 6 yn ymweld gyda Pentre Peryglon cyn diwedd y tymor.
- Hyfforddiant ar e-ddiogelwch wedi ei gyflwyno i'r rhieni.

## Hylendid

- Pob ardal o'r ysgol yn arbennig o lân a thaclus. Ni chafwyd siawns i ymweld gyda toiledau'r disgyblion tan ddiwedd y dydd, wedi i'r disgyblion ymadael ond cyn i'r glanhawyr orffen eu gwaith, ond roeddynt i gyd yn lân a thaclus yn dangos fod y disgyblion yn parchu'r adeilad. Disgyblion yn gwirio'r toiledau ac yn cymryd unrhyw broblemau i'r athrawon.
- Aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant ac wedi cyflwyno'r adnodd E-bug i weddill y staff. Defnyddiwyd yr adnodd Glitter Bugs hefyd gyda'r ysgol gyfan.
- Disgyblion o'r ysgol wedi dod yn fuddugol mewn cystadleuaeth genedlaethol i greu poster "Golchwch eich Dwylo".
- Sioe Hylendid Bwyd ym mis Hydref 2017.
- Yr ysgol wedi gefeillio gyda thoiledau yn Nepal.
- Cynllun Gwen yn y dosbarthiadau Meithrin a derbyn yn ddyddiol.
- Ffrindiau Ffreutur ar gael i helpu ar amseroedd cinio ac yn gwneud hyn yn drefnus iawn.
- Cyfleusterau gwaredu addas ar gael i'r merched hynaf.
- Llythyr yn cynnwys y daflen heintiau wedi ei gyrru adref.

**Meysydd sydd angen ystyriaeth bellach**

- Efallai y byddech yn ystyried cystadlu yn y gystadleuaeth Cogurdd am fod eich Clwb Coginio mor llwyddiannus.
- Dylid cofio gwisgo ffedog bob tro y bydd y disgyblion yn gwneud gweithgareddau coginio.
- Gyda llwyddiant y cynllun Milltir y Dydd, efallai y gellid ei hymestyn i gynnwys disgyblion Bl.5 hefyd.
- Er fod y daflen heintiau wedi ei gyrru adref mewn llythyr, efallai byddai ei harddangos yn glir ar eich safwe yn ddefnyddiol. Byddai ategu brawddeg am y cyfnod 48 awr wedi salwch stumog a/neu dolur rhydd at y wybodaeth sydd yn barod yn eich llawlyfr ysgol hefyd yn ddefnyddiol.
- Y tro nesaf y byddwch yn gyrru llythyr am bwysigrwydd yfed dŵr, byddai cynnwys brawddeg sy'n sôn am bwysigrwydd golchi'r poteli'n drwyadl gyda dwr poeth a hylif golchi llestri yn syniad da.
- Pan dderbyniwch eich poster am fwydo ar y fron, cofiwch ei arddangos ac efallai, eto ei osod ar eich gwefan.

**Adborth i ddisgyblion**

Annwyl ddisgyblion Ysgol Gwenffrwd,
Diolch yn fawr iawn am wneud ein hymweliad yn un mor bleserus. Roedd yn grêt i gael siawns i siarad gyda chymaint ohonoch ac roedd pawb yn garedig a chwrtais.
Roedd y cyflwyniad a gawsom gan cymaint ohonoch yn arbennig o dda. Mi wnaethom ei fwynhau yn fawr iawn ac yn well nac ambell i gyngerdd yr wyf wedi bod iddo. Cawsom daith ddifyr iawn o amgylch yr ysgol, diolch genod am ein tywys ac am ddangos cymaint i ni. Mae gennych ysgol hyfryd sy'n llawn o bethau diddorol ac mae'n rhaid dweud eich bod i gyd yn parchu pob rhan ohoni yn arbennig o dda.

Mae'n wych i weld y gall pob disgybl gael llais ac mae gwaith y cyngor ysgol, yr Eco Bwyllgor, y Chwaraewyr Da, y Mêts Grêt , y Dewiniaid Digidol, y Ffrindiau Ffreutur, y Llysgenhadon Iaith, yr E- Cadéts a'r Criw Heartstart i gyd yn frwdfrydig ac yn gweithio'n galed iawn. Braint oedd cael eistedd mewn cyfarfod o'r Cabinet a gwrando ar eich gwaith trefnus. Rydych yn griw hynod o aeddfed ac yn gweithio'n galed iawn ar ran holl ddisgyblion Ysgol Gwenffrwd.

Un o'r pethau a sylwais fwyaf yn eich ysgol oedd bod pawb yn ymddangos mor hapus a cymaint o barch a gofal a ddangosir tuag at eich gilydd a tuag at yr amgylchedd. Roedd pawb yn ymddwyn yn dda a pharchus, yn hynod o gwrtais ac yn garedig i'w gilydd. Da iawn chi!

Braf oedd clywed am eich llwyddiannau yn yr Urdd ac mewn cystadlaethau chwaraeon ac roedd yn hyfryd cael ymuno yn eich gwasanaeth a gweld y disgyblion yn rhannu eu llwyddiannau ac yn derbyn clod.

Diolch unwaith eto am wneud ein hymweliad yn un mor hapus. Mae gennych ysgol hyfryd ac mae eich gwaith chi a gwaith staff yr ysgol yn sicrhau eich bod yn cael y siawns orau mewn bywyd. Cofiwch, rydych chi yn helpu i wneud eich ysgol yn le gwych – rhywle sy'n ddiogel, hapus, prysur a lle gallwch ddysgu sut i fod yn iach a hapus wrth dyfu i fyny.

Daliwch ati gyda'r gwaith da a phob lwc i'r dyfodol,

Eurwen Hulmston

**Adborth i'r Cyd-gysylltydd lleol**